**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 15 Tachwedd 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 15 Tachwedd 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 22 Tachwedd 2024 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan- Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles
Y Cynghorydd

---

**PWNC** Amrywio ardal PSPO Cricieth

---

**PENDERFYNIAD –**

a) Yn dilyn cais brys gan yr Heddlu, cymeradwyo amrywio'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol yng Nghricieth, fel bod yr ardal y mae'n berthnasol iddi yn cael ei newid yn unol â'r map sydd ynghlwm (atodiad 1)

b) Awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i baratoi a selio diwygiad gorchymyn Cricieth

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet : | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan- Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daron Marged Owens – Uwch Swyddog Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 15 Tachwedd 2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Amrywio ardal PSPO Cricieth**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

a) Yn dilyn cais brys gan yr Heddlu, cymeradwyo amrywio'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol yng Nghricieth, fel bod yr ardal y mae'n berthnasol iddi yn cael ei newid yn unol â'r map sydd ynghlwm (atodiad 1)

b) Awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i baratoi a selio diwygiad gorchymyn Cricieth

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae angen penderfyniad i amrwyio. Yr Awdurdod Lleol a neb arall sydd gyda'r hawl i amrywio Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Criccieth i gynnwys ardal y Stryd Fawr.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn dilyn llifeiriant o ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) yn ardal Stryd Fawr Cricieth, gwnaeth Arolygydd Ardal Dde Gwynedd gais brys i Gyngor Gwynedd i ymestyn ardal y GDMC presennol.
Yn ystod mis Medi 2024, defnyddiwyd y Pŵer Gwasgaru *(Dispersal Power)* ar bedwar achlysur gan yr Heddlu yn ardal Stryd Fawr y dref. Rhaid i Arolygydd awdurdodi defnyddio'r Pŵer Gwasgaru, am gyfnod o hyd at 48 awr. Ateb tymor

byr yw hwn i wasgaru unigolion gwrthgymdeithasol. Mae’r Canllawiau Statudol yn nodi: *“Mewn ardaloedd lle mae problemau cyson, argymhellir bod yr heddlu’n gweithio gyda’r cyngor lleol i ddod o hyd i ateb cynaliadwy hirdymor,”* O ganlyniad i hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cais i amrywio ardal y GDMC presennol, fel ei fod hefyd yn cynnwys yr ardal sydd wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddiweddar.

Os ydym ni'n amrywio GDMC, mae gofynion statudol o ran rhoi cyhoeddusrwydd i hyn, ac mae'n ofynnol i gynghorau gynnal proses ymgynghori bellach. Oherwydd difrifoldeb effaith yr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus ar y gymuned leol, barnwyd bod y cais i amrywio'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn un brys. Mae’r Canllawiau Statudol yn nodi: *“Os yw mater yn arbennig o frys, mae cyfnod ymgynghori byrrach yn debygol o fod yn gymesur”.*

Yn dilyn trafodaethau gydag Adran Gyfathrebu Cyngor Gwynedd, daethom i’r penderfyniad mai sesiwn ‘galw heibio’ fyddai fwyaf priodol. Cynhelir yng Nghricieth gan roi cyfle i drigolion lleol drafod y mater wyneb yn wyneb i rannu eu barn (atodiad 2). Cynhaliwyd y digwyddiad ymgynghori hwn ar yr 2ail o Hydref yn Llyfrgell Cricieth, a fynychwyd gan yr Arolygydd Ardal, Swyddog Heddlu a Rheolwr Diogelwch Cymunedol Cyngor Gwynedd. Roedd tua 45 o bobl yn bresennol i glywed am y cynlluniau i amrywio’r PSPO, yn ogystal â deall ymateb yr Heddlu i’r ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus. Pan ofynnwyd i'r gynulleidfa a oeddent yn cefnogi'r bwriad o ymestyn ffin y GDMC, cadarnhaodd pawb eu cefnogaeth ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad. Roedd aelodau'r Cyngor Tref a'r Cynghorydd i Gricieth hefyd yn bresennol. Roedd cyfle hefyd i'r rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol i rannu sylwadau trwy gysylltu â'r adran Diogelwch Cymunedol yn uniongyrchol.

O'r gweithgarwch ymgynghori a wnaed, gellir casglu bod digon o wybodaeth i gydnabod bod llawer o bobl yng Nghricieth yn bryderus am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a bod digwyddiadau diweddar wedi cael effaith andwyol sylweddol ar unigolion a lleoliadau o fewn y dref. Ni chafwyd unrhyw awgrym o unrhyw wrthwynebiadau i'r bwriad i amrywio'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol drwy addasu ac ymestyn yr ardal y mae'n berthnasol iddi.

Bydd cyfraniadau o'r gyllideb Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu a'r Cyngor Tref yn mynd i'r afael â chostau arwyddion ychwanegol. Os caniateir, byddwn yn cyhoeddi y bwriad am gyfnod o wythnos cyn selio’r gorchymyn a daw i rym.

**<u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u>**

Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cyngor dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd cymdeithasol.

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb (AEC) ym mis Mehefin, mewn perthynas â'r broses o roi'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar waith yn wreiddiol (atodiad 3), ac ymgynghorwyd â'r swyddog cydraddoldeb. Ni ystyrir fod yr amgylchiadau wedi newid o'r asesiad gwreiddiol. Mae'r AEC gwreiddiol yn dangos bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl â nodweddion cydraddoldeb a thri nod y ddyletswydd cydraddoldeb.

Yn ogystal, mae'r ddogfen yn dangos yr ystyriaeth fanwl a roddwyd ar effeithiau posib ar anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae mwyafrif helaeth o'r effeithiau posib yn bositif, ac yn golygu ein bod yn lleihau'r bwlch economaidd-gymdeithasol. Fe welwch yn y ddogfen fod camau penodol yn cael eu gweithredu i ddileu unrhyw effaith negyddol posib.

**<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant, yn unol â 5 ffordd weithio. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (atodiad 3) yn manylu sut mae'r bwriad, a'r ffordd rydym wedi gweithredu, yn cydymffurfio a'r Ddeddf.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid –** Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol

**Swyddog Monitro –** Mae'r adroddiad yn gosod allan y camau a ddilynwyd ar gyfer sefydlu yr amrywiad mewn modd priodol. Gallaf gadarnhau y bydd Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi gweitrhedu unrhyw benderfyniad a wneir.

**Aelod/au Lleol -** Rwyf wedi darllen trwy'r daflen ac yn hapus iawn gyda y materion a nodwyd.



Criccieth
Bryn Awelon Nursing Home
Tir-Uchaf
Nant y Wyddan
Cemetery
Plymouth Farm
Ffrwd y Brain
St Catherine's Church
Public Park Or Garden
Y Maes
Lon Tynllan / Radcliffe Road
Wern Y Wylan
Lon Geraint / Geraint Road
Morannedd
Ffordd Porthmadog / Portmadog Road
Stryd Fawr / High Street
A497
Lon Merllyn
Esplanade
Other Sports Facility
Allotments
Wellington Terrace
Penpaled Road
Min Y Traeth / Beachbank
Lon Felin
Playing Field
Bowling Green
Play Space
Ysgol Treferthyr
Criccieth Tennis Club
Gwaun Ganol
Penaber
Muriau
Lon Dinas / Stanley Road
Lon Bach / Castle Square
Marine Crescent
Min Y Mor / Marine Terrace
Lon Fel
Stad Gorseddfa
Heol Henbont / Henbont Road
Ty'n Rhos